# Cyngor Sir Gâr
# Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Caerfyrddin

## Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg

**Medi / Hydref 2022**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Datganiad Cyffredinol | 2 |
| 2. | Graddfa Parodrwydd i Dderbyn Risg | 3 |
| 3. | Risg Weithredol | 4 |
| 4. | Risg Gyfreithiol / Rheoleiddiol / Llywodraethu | 4 |
| 5. | Risg Ariannol | 5 |
| 6. | Risg o ran Pobl | 5 |
| 7. | Risg o ran Technoleg | 6 |
| 8. | Risg o ran yr Amgylchedd | 6 |
| 9. | Risg o ran Enw Da | 7 |

**Datganiad Cyffredinol**

Mae'r Cyngor Sir yn darparu ystod eang o wasanaethau i breswylwyr, cymunedau, sefydliadau a busnesau yn Sir Gaerfyrddin. Er bod risg yn gynhenid ym mhob un o'i weithgareddau mae'r Cyngor yn anelu at fod yn drawsnewidiol ac yn arloesol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae derbyn risg yn angenrheidiol er mwyn i'r sefydliad esblygu a rhagori.

Mae'r saith prif gategori risg canlynol wedi'u nodi ac mae datganiad parodrwydd i dderbyn risg wedi'i neilltuo i bob un ohonynt.

- Gweithredol
- Cyfreithiol / Rheoleiddiol / Llywodraethu
- Ariannol
- Pobl
- Technoleg / Gwybodaeth / Diogelwch
- Amgylcheddol
- Enw Da

## Graddfa Parodrwydd i Dderbyn Risg

Wrth lunio'r datganiadau parodrwydd i dderbyn risg, mae'r raddfa a'r diffiniadau canlynol wedi'u datblygu a'u cymhwyso.

### Gwrth-risg

- Osgoi risg ac ansicrwydd wrth gyflawni canlyniadau neu fentrau allweddol yw'r nod allweddol. Dim ond gweithgareddau yr ystyrir bod ganddynt fawr ddim risg gynhenid fydd yn cael eu cyflawni.

### Minimalaidd

- Yn ffafrio opsiynau cyflawni busnes diogel iawn sydd â graddfa isel iawn o risg gynhenid lle nad yw'r potensial ar gyfer buddion/adenillion yn ysgogwr allweddol. Dim ond gweithgareddau sydd â lefel isel o risg gynhenid fydd yn cael eu cyflawni.

### Gofalus

- Yn ffafrio opsiynau diogel sydd â lefel o risg gynhenid a pheth potensial cyfyngedig ar gyfer buddion. Yn fodlon derbyn lefel o risg wrth ddewis pa weithgareddau i'w gwneud er mwyn cyflawni canlyniadau neu fentrau allweddol, lle'r ydym wedi nodi cyfle i gyflawni buddion sylweddol a/neu wireddu cyfle. Mae'n bosibl y bydd lefel uwch o risg gynhenid i'r gweithgareddau a gyflawnir yr ystyrir y gellir ei rheoli i raddau helaeth.

### Agored / Derbyngar

- Yn fodlon ystyried yr holl opsiynau a dewis yr un sydd fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau llwyddiannus gan hefyd roi lefel dderbyniol o fuddion.
- Yn ceisio cyflawni cydbwysedd rhwng tebygolrwydd uchel o gyflawniad llwyddiannus a lefel uchel o fuddion a gwerth. Efallai y bydd lefel uchel o risg weddilliol i'r gweithgareddau eu hunain neu y byddant yn cyfrannu at y lefel risg honno.

### Uchelgeisiol

- Yn awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau yn seiliedig ar wneud y mwyaf o gyfleoedd a photensial ar gyfer buddion uwch hyd yn oed os oes risg weddilliol uchel iawn i'r gweithgareddau hynny.

r

| | |
|---|---|
| **Risg Weithredol** | Mae gan y Cyngor barodrwydd **derbyngar** i'r risgiau sy'n caniatáu iddo reoli'r galw am wasanaethau, a gwella darpariaeth a pherfformiad gwasanaethau'n gyson. |
| | Mae'r Cyngor yn **uchelgeisiol** am gymryd risgiau a reolir yn dda pan fydd cyfleoedd yn rhoi buddion clir gan ganiatáu gwelliant, arloesedd a thrawsnewid. |
| | Mae'r Cyngor yn **uchelgeisiol** o ran ei barodrwydd i dderbyn risgiau sy'n darparu ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd y Sir. |
| | Mae'r Cyngor yn **ofalus** o ran risgiau a allai fygwth darpariaeth gwasanaethau critigol. |

| | |
|---|---|
| **Risg Gyfreithiol / Rheoleiddiol / Llywodraethu** | Mae'r Cyngor yn **geidwadol** o ran unrhyw risgiau a fydd yn arwain at dorri rhwymedigaethau statudol, rheoliadau a chyfraith. Dim ond gweithgareddau sydd â lefel isel o risg gynhenid fydd yn cael eu cyflawni. |

| | |
|---|---|
| **Risg Ariannol** | Mae'r Cyngor yn **ofalus** o ran risgiau sy'n gysylltiedig â risgiau ariannol sylweddol, gan ddewis opsiynau cyflawni diogel. Mae osgoi colled ariannol yn nod allweddol. |
| | Mae gennym ymagwedd **finimalaidd** tuag at weithgareddau sy'n cynnwys bod yn agored i dwyll ariannol ac felly byddwn yn gweithredu mesurau rheoli cadarn i ddiogelu arian y Cyngor. |
| | Mae gennym ymagwedd **finimalaidd** tuag at gynnal diogelwch ein buddsoddiadau ariannol. |
| | Mae gan y Cyngor ymagwedd **ofalus** tuag at reoli ei gyllidebau. |

| | |
|---|---|
| **Risg o ran Pobl** (gan gynnwys Rhanddeiliaid / Iechyd a Diogelwch / Diogelu) | Gan dderbyn bod yna risgiau yn gysylltiedig â'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau, mae'r Cyngor yn **finimalaidd** o ran risgiau a allai beryglu iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chydraddoldeb ei staff a'i aelodau etholedig. |
| | O ran darparu gwasanaethau, rydym yn cydnabod bod yna risgiau cynhenid yn gysylltiedig â llawer o agweddau ar ddarparu gwasanaethau a allai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu i liniaru'r risgiau y mae ein gweithwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | Mae gan y Cyngor ymagwedd **dderbyngar** tuag at faterion recriwtio a chadw staff er mwyn dod yn gyflogwr o ddewis, gan gynnwys mabwysiadu ymagweddau arloesol tuag at arferion cyflogi modern. |
| | Mae gan y Cyngor ymagwedd **ofalus** tuag at reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu ar gyfer oedolion a phlant. |

| | |
|---|---|
| **Risg o ran Technoleg / Gwybodaeth / Diogelwch** | Mae'r Cyngor yn **wrth-risg** o ran unrhyw risgiau a fydd yn arwain at golli systemau TG critigol ac yn gwneud y Cyngor yn agored i fygythiadau posibl o ymosodiadau seiberddiogelwch maleisus. |
| | Mae'r Cyngor yn **wrth-risg** o ran unrhyw risgiau a fydd yn arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth neu dorri'r Ddeddf Diogelu Data. |
| | Fodd bynnag, mae'n barod i **dderbyn** risgiau technolegol a reolir yn dda i wella effeithiolrwydd, gwytnwch a chynaliadwyedd. |

| | |
|---|---|
| **Risg o ran yr Amgylchedd** | Mae gan y Cyngor ymagwedd **ofalus** tuag at risgiau i alluogi cyfraniad cynaliadwy a chymdeithasol-gyfrifol i'r amgylchedd. Rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. |
| | Lle y gallai natur darpariaeth gwasanaethau neu ddatblygiad achosi niwed amgylcheddol, bydd gan y Cyngor ymagwedd **ofalus** a chynaliadwy sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr effaith amgylcheddol a'r buddion. |
| | Mae'r Cyngor yn **uchelgeisiol** o ran risgiau a reolir yn dda wrth gyflawni ei ymrwymiad i fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. |

**Risg o ran Enw Da**

Mae'r Cyngor yn dibynnu ar enw da er mwyn sicrhau ymgysylltiad rhanddeiliaid allweddol, busnesau, partneriaid, cymunedau a phreswylwyr. Mae cefnogaeth y partïon hyn yn allweddol o ran cyflawni amcanion a chanlyniadau strategol y Cyngor. Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i gael ei weld fel sefydliad cyfrifol, effeithiol ac effeithlon gan gynnal hyder preswylwyr, cymunedau, sefydliadau a busnesau yn Sir Gaerfyrddin. Yn gyffredinol mae gan y Cyngor ymagwedd **ofalus** o ran enw da.

Bydd y Cyngor yn cynnal safonau uchel o ymddygiad ac ni fydd yn derbyn risgiau a allai achosi niwed i enw da'r Cyngor a thanseilio hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Yn gyffredinol mae gan y Cyngor ymagwedd **ofalus** tuag at enw da.